| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **12 CHWEFROR 2016** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO –<br>MOTOR FUEL LTD, CONVENIENCE STORE, PORTHMADOG FILLING STATION, PORTHMADOG, LL49 9NG** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## MANYLION Y CAIS

Derbyniwyd cais am drwydded eiddo ar 23 Tachwedd 2015, ar gyfer 'Convenience Store', Porthmadog Filling Station, Porthmadog, oddi wrth Licensing Solutions, sef asiant i'r cwmni Motor Fuel Ltd.

Mae'r ffurflen gais yn nodi fod hwn yn gais ar gyfer siop hwylus un llawr sydd wedi ei leoli ar flaengwrt garej 'Shell Filling Station', Porthmadog. Bwriedir gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo a darparu lluniaeth hwyr y nos ar yr eiddo.

Mae'r camau mae'r ymgeisydd yn bwriadu dilyn i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu wedi eu rhestri yn adran M o'r ffurflen gais. Gwelir copi o'r ffurflen gais a chynllun yr eiddo fel Atodiad 1.

## GWYBODAETH CYFREITHIOL

Mae paragraff 5.21 o'r Canllawiau Diwygiedig (Mawrth 2015) a gyhoeddwyd dan Adran 182 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 yn egluro bod Adran 176 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 yn gwahardd gwerthu neu gyflenwi alcohol o eiddo a ddefnyddir yn bennaf fel garej, neu yn rhan o eiddo a ddefnyddir yn bennaf fel garej.

Mae eiddo yn cael ei ddefnyddio yn bennaf fel garej os ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer un neu fwy o'r canlynol:

- Adwerthu petrol;
- Adwerthu derv;
- Gwerthu cerbydau modur; ac
- Cynnal a chadw cerbydau modur.

Mater i'r awdurdod trwyddedu yw penderfynu, ar sail yr amcanion trwyddedu, a yw'n briodol i'r eiddo gael trwydded. Bydd angen cymryd i ystyriaeth y ddogfennaeth sy'n gorfod bod gyda'r cais, h.y. yr atodlen weithredu a'r cynllun. Gwelir copïau o'r wybodaeth ychwanegol a gyhoeddwyd gyda'r cais yn Atodiad 1.

## SYLWADAU

| **Ymateb** | **Sylwadau** |
|---|---|
| Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd | Dim Sylwadau |
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim Sylwadau |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Dim Sylwadau |
| Partion eraill a diddordeb | 2 Gwrthwynebiad |

Gwelir copiau o'r gwrthwynebiadau fel Atodiad 2.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r is-bwyllgor ystyried y cais am drwydded eiddo yn unol ag amcanion Deddf Trwyddedu 2003 a Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd.